**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**CYRFF GWIRFODDOL SY’N YMWNEUD Â DIGARTREFEDD – YSTYRIED ADRODDIAD ADOLYGU ARIAN CRAIDD**

**Diben**

1. Gwahoddir y pwyllgor i nodi’r adolygiad arfaethedig o arian craidd ar gyfer cyrff gwirfoddol o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996.

**Cefndir**

2. Ers 1996, mae tri chorff gwirfoddol sy’n derbyn arian craidd, sef Cymorth i Fenywod yng Nghymru, Shelter Cymru a Chymdeithas Caer Las wedi derbyn arian o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996. Cyn 1996 câi’r cyrff eu hariannu o dan Adran 13 o Ddeddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977 ac Adran 73 o Ddeddf Tai 1985.

3. Rhoddir yr arian canlynol ar gyfer y tri chorff yn 2000/01:

| | |
|---|---|
| Cymorth i Fenywod yng Nghymru | £106,781 |
| Shelter Cymru | £103,964 |
| Cymdeithas Caer Las | £140,730 |

Bydd y cyrff yn defnyddio’r arian hwn i gadw eu lefelau staffio sylfaenol. Ceir manylion am bob corff yn **Atodiad 1**.

4. Mae’r pwerau ariannu’n dod o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996, a drosglwyddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a ddirprwywyd i’r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

5. Bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gofynnwyd i’r tri chorff am wybodaeth fanwl am y canlynol:

- Nodau ac amcanion y corff;

- Cynllun y strwythur rheoli a staffio;

- Cyrff eraill (os o gwbl) sy'n darparu gwasanaeth tebyg i'w cwsmeriaid, a'r hyn yr ymgynghorwyd yn ei gylch;

- Crynodeb o'r incwm a'r gwariant disgwyliedig **heb gynnwys** cymorth grant y Swyddfa Gymreig/Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Ffynonellau ariannu disgwyliedig **heb gynnwys** cymorth grant uniongyrchol Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- Manylion ceisiadau a wnaed i ffynonellau eraill;

- Faint o grant craidd y gofynnwyd amdano (am hyd at dair blynedd ariannol);

- Gwariant anghyfredol (e.e. mân offer etc.);

- Manylion yr amcanion penodol y disgwylir iddynt gael eu cyflawni;

- System fonitro i'w defnyddio i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni a bod y gyllideb yn cael ei rheoli'n gywir;

- Adroddiad ar gyflawni amcanion ac eglurhad o unrhyw amrywiadau sylweddol rhwng amcangyfrifon y gyllideb a gyflwynwyd y flwyddyn flaenorol;

- Copi o'r cyfansoddiad, os yw'n berthnasol (a manylion cofrestru'r Comisiwn Elusennau), os yw'n berthnasol;

- Swydd-ddisgrifiadau;

- Adroddiadau blynyddol;

- Cyfrifon a archwiliwyd;

- Cynllun busnes.

Gofynnwyd am y wybodaeth ganlynol hefyd:

1. Blaenoriaethu eu gweithgareddau ac effaith eu rhaglen ddatblygu pe na ellid cael canran o grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Sampl o sylwadau di-enw gan gwsmeriaid ar ba fanteision y mae'r gwasanaeth wedi'u rhoi i ddefnyddwyr.

6. Gwnaed cais am gymeradwyaeth Weinidogaethol bob blwyddyn er mwyn parhau i ariannu pob corff. Oherwydd y defnyddir arian Adran 180 i dalu costau staff sy'n ddarostyngedig i gyfraddau tâl cyhoeddedig, rhoddwyd 2.5% yn fwy i'r cyrff ym 1999/2000, yn unol â datchwyddiant Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Mae datchwyddiant y CMC, a bennir gan y Trysorlys, yn fesur safonol ar gyfer chwyddiant cyffredinol yn yr economi wladol. Fe'i defnyddir gan amlaf ar gyfer codiadau o'r math hwn.

**Y sefyllfa hyd yma**

7. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan bob un o'r tri chorff drwy fonitro'u hadroddiadau ar weithgarwch yn ymddangos yn werthfawr. Caiff pob corff ei fesur yn erbyn targedau clir ar gyfer allbwn a dangosyddion perfformiad, a bennir ganddynt, ac a gytunir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Serch hynny, mae'r cyrff wedi derbyn arian craidd ers dros bum mlynedd ac mae'n briodol bellach i'r Cynulliad Cenedlaethol gynnal adolygiad manwl o bob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir a'r gwerth am arian, gan gynnwys: archwilio'r meini prawf cyllido ac a ydynt yn dal i fod yn briodol; archwilio ai Adran 180 yw'r cyfrwng priodol ar gyfer arian craidd ac a ddylai'r Cynulliad Cenedlaethol barhau i ymdrin ag arian craidd; ystyried y potensial ar gyfer ymestyn y meini prawf fel y gellir cynnig arian craidd i gyrff eraill yng Nghymru.

8. Mae'r tri chorff gwirfoddol wedi cael gwybod am y penderfyniad i gynnal yr adolygiad. Gallai'r adolygiad arwain at y canlynol:

a) Cadarnhau'r gwasanaeth a ddarperir a lefel yr arian craidd;

b) Newid lefel y gwasanaeth i fodloni'r gofynion cyfredol, gyda'r newid cyfatebol i lefel yr ariannu;

c) Tynnu'r arian yn ôl.

9. Yn y cyfamser byddwn yn ceisio cymeradwyaeth Weinidogaethol erbyn diwedd

mis Ionawr er mwyn parhau i roi arian craidd i Gymorth i Fenywod yng Nghymru, Shelter Cymru a Chymdeithas Caer Las ar gyfer 2001/2002 fel na therfir ar waith y cyrff. Bydd pob gwariant yn cael ei gyfrif yn y gyllideb a fabwysiadwyd gan y Cynulliad ar 7 Rhagfyr.

10. Y bwriad yw y bydd canlyniad yr adolygiad yn hysbys erbyn diwedd y flwyddyn ac y cyflwynir copïau o'r adroddiad/crynodeb gerbron y Pwyllgor.

**Camau i'w cymryd gan y pwyllgor pwnc**

11. Gwahoddir y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i nodi'r adolygiad o'r cyrff gwirfoddol sy'n derbyn arian craidd.

**Cangen Tai Cynaliedig Ionawr 2001**

**Atodiad 1**

**CYMORTH I FENYWOD YNG NGHYMRU**

**Cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ar gyfer 2000/01 o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996:**

£106,781 i'w dalu mewn pedwar taliad chwarterol ymlaen llaw, i dalu am y canlynol:

**Costau craidd (h.y. costau rheoli'r corff):**

Cyd-drefnydd Tai Cenedlaethol (swyddfa Caerdydd)

Cyd-drefnydd Cenedlaethol, yr Heddlu a Materion Cyfreithiol (swyddfa Caerdydd)

Cyd-drefnydd Budd-daliadau/Hawliau Lles (swyddfa Caerdydd)

Cyd-drefnydd Ystadegau Gwladol/Ymchwil (swyddfa'r Rhyl)

Cyd-drefnydd Cyhoeddusrwydd Cenedlaethol (swyddfa Caerdydd)

**Costau darparu gwasanaeth (h.y. costau uniongyrchol y gwasanaethau neu'r gweithgareddau).**

**Gwariant anghyfredol (e.e. mân offer, cyrsiau ar gyfer staff, hysbysebion).**

Uwchdaflunyddion; Cadeiriau; Peiriannau Rhwygo; Cabinet ffeilio; stand siartiau etc.

**SHELTER CYMRU**

**Cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ar gyfer 2000/01 o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996:**

£103,964 i'w dalu mewn pedwar taliad chwarterol ymlaen llaw, i dalu am y canlynol:

**Costau craidd (h.y. costau rheoli'r corff):**

10% Cyfarwyddwr

100% Cyfarwyddwr Rhanbarthol – Gogledd Cymru

100% Cyfarwyddwr Rhanbarthol – De Cymru

100% Cyd-drefnydd Gwasanaethau – Gogledd Cymru

100% Cyd-drefnydd Gwasanaethau – De Cymru

50% Cynorthwy-ydd Personol y Cyfarwyddwr

Rheolwr Cyllid

Cynorthwy-ydd Cyllid

**Staff ychwanegol, costau cymorth a gweinyddu.**

Mae’r cyllid hwn yn ariannu 50% o gyfanswm cost y swyddi.

**CYMDEITHAS CAER LAS**

**Cyfanswm yr arian a dderbyniwyd ar gyfer 2000/01 o dan Adran 180 o Ddeddf Tai 1996:**

£140,730 i’w dalu mewn pedwar taliad chwarterol ymlaen llaw, i dalu am y canlynol:

**Costau craidd (h.y. costau rheoli’r corff):**

Gweithiwr Cymorth i Denantiaid

Cyd-drefnydd Gweithrediadau Asesu/Gweithwyr Cymorth i Denantiaid

Rheolwr Gwasanaethau Strategol i Gwsmeriaid – 100% (swydd ran-amser)

Rheolwr Rhaglenni/Adnoddau – 50% (swydd lawn-amser)

Cyd-drefnydd Gweithrediadau Tai

Darperir arian craidd ar gyfer y corff ac mae’n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli a gweithredu gwaith Cymorth Tai sy’n sylfaen i waith Caer Las.

**Costau darparu gwasanaeth (h.y. costau uniongyrchol y gwasanaethau neu’r gweithgareddau).**